

Cysylltiadau ag agweddau eraill ar y Cwricwlwm

Mae'r darnau y cyfeirir atynt isod yn darparu cyfleoedd i gysylltu â meysydd eraill o'r Cwricwlwm:

Rhifyn 16

Darn	Cyfleoedd i gysylltu â'r meysydd canlynol:
Tŷ'r Hobbit	<p>Mathemateg</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i ganfod arwynebedd cylch <p>Dylunio a Thechnoleg</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i feddwl mewn modd creadigol ac arloesol wrth gynllunio tŷ hobit cyfle i werthuso cynlluniau ei gilydd <p>Gwyddoniaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i drafod ynni'r haul a nodweddion tŷ ecogyfeillgar
Aliwns	<p>Daearyddiaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am leoedd ar fap o'r byd <p>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am wybodaeth am UFOs yng Nghymru ac i drosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau <p>Dylunio a Thechnoleg</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfle i feddwl mewn modd creadigol ac arloesol wrth gynllunio gwisg ffansi a chyfle i'w werthuso <p>Hanes</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae cyfle i drafod pwnc lleol wrth drefnu gŵyl leol – yn dibynnu ar thema'r ŵyl
Canu da?	<p>Cerddoriaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae cyfle i ddangos clipiau o bobl yn canu mewn cystadlaethau canu ar y teledu ac i werthuso'r perfformiadau. Yn ogystal, gellid cynnal cystadleuaeth debyg yn yr ysgol os yw'n ymarferol.

	Daearyddiaeth <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am y lleoedd a enwir ar fap o'r byd
Ffantasi Cymru	Daearyddiaeth <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am y lleoedd a enwir ar fap ac i chwilio am fwy o wybodaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am fwy o ddelweddau a gwybodaeth Mathemateg <ul style="list-style-type: none"> cyfle i gyfrifo cyfanswm cost taith i Bortmeirion neu Gastell Coch a'r gost fesul pen
Ffilmiau ffantasi	Mathemateg <ul style="list-style-type: none"> cyfle i wneud a defnyddio holiaduron cyfle i greu graffiau / siartiau cylch ac i egluro'r canfyddiadau Cerddoriaeth <ul style="list-style-type: none"> cyfle i wrando ar gerddoriaeth a'i gwerthuso
Beth sy'n digwydd?	Hanes <ul style="list-style-type: none"> gellid archwilio cyfnodau hanesyddol wrth osod themâu penodol ar gyfer y chwarae rôl
Mynd ar saffari	Daearyddiaeth <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am leoedd ar fap o'r byd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> cyfle i chwilio am fwy o wybodaeth, e.e. pris pecyn saffari yn Kenya
Chwilio am Pokemon	Daearyddiaeth / Hanes <ul style="list-style-type: none"> cyfle i ystyried agweddau daearyddol / hanesyddol, wrth feddwl am leoedd diddorol lle y gellid cuddio Pokemons
Parti gwahanol	Mathemateg <ul style="list-style-type: none"> cyfle i ystyried cyfyngiadau cyllidol wrth gynllunio parti

Gwyliau delfrydol	Mathemateg <ul style="list-style-type: none"> • cyfle i drosi o ddoleri i bunnoedd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu <ul style="list-style-type: none"> • cyfle i chwilio am wybodaeth am wyliau yn y gofod • cyfle i drosglwyddo gwybodaeth ar ffurf testun a delweddau
--------------------------	--

Y Cwricwlwm Cymreig

Mae'r darn **Ffantasi Cymru**'n sôn am bentref Portmeirion a Chastell Coch a gellid trafod unrhyw leoedd eraill yng Nghymru a fyddai o ddiddordeb. Yn ogystal, mae'r rhifyn hwn yn cynnwys dwy chwedl Gymreig draddodiadol, sef **Stori'r hen anifeiliaid**, sy'n perthyn i chwedl **Culhwch ac Olwen** a **Hen, hen stori**, sef **Chwedl Taliesin**. Gellid cyflwyno cerddoriaeth Gymraeg ar ôl gorffen yr adran **Canu da?** yn ogystal.

Datblygu meddwl

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau **cynllunio, datblygu a myfyrio**:

- archwilio, cynllunio, datblygu ac ystyried syniadau drwy siarad, darllen ac ysgrifennu ac ymateb i'w gwaith eu hunain ac i waith eraill
- dadansoddi, strwythuro a threfnu eu gwaith
- defnyddio iaith yn greadigol
- defnyddio gwallau a chanlyniadau annisgwyl i ddatblygu eu dysgu
- defnyddio eu gwybodaeth o iaith i egluro a rhagfynegi
- adnabod patrymau a ffurfio rheolau
- trafod sut byddant yn dysgu iaith ac yn gwerthuso eu llwyddiant.

Datblygu cyfathrebu

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau **llafaredd, darllen, ysgrifennu a chyfathrebu ehangach**:

- cyfathrebu trwy lafaredd, darllen ac ysgrifennu, gan ddatblygu'r sgiliau hyn trwy werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eraill
- dysgu sut i gyfathrebu yn effeithiol ar gyfer ystod o ddibenion a chydag ystod o gynulleidfaoedd.
- ymdrin ag iaith estynedig a mwyfwy cymhleth er mwyn datblygu i ddefnyddio iaith yn annibynnol ac yn hyderus.

Datblygu TGCh

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd:

- cyfathrebu a rhannu gwybodaeth
- defnyddio technoleg ar gyfer ymchwil, datblygu a chyflwyno’u gwaith.

Datblygu rhif

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno casgliadau:**

- defnyddio trefnolion a rhifolion
- cywain gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd
- cyrchu, dethol, cofnodi a chyflwyno data mewn gwahanol fformatau.

[Cymraeg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru, 2008, tud. 7]